

newyddion Cymraeg Colegau Cymru #170

19 Ionawr 2015

Croeso i e-newyddion Colegau Cymru yn y Gymraeg - y diweddariad wythnosol o newyddion colegau addysg bellach Cymru.

Welcome to Welsh language edition of the CollegesWales e-news, the weekly roundup of news from across education colleges in Wales.

Gobeithio y mwynhewch y gwasanaeth newydd!

We hope you enjoy the new bilingual service!

Rydyn ni wrthi ar hyn o bryd yn diweddarau ac yn mireinio'r bas-data o danysgrifwyr. Ymddiheurwn os ydych wedi derbyn y rhifyn hwn ar gam. [Cysylltwch](#) da chi os hoffech dynnu eich enw o'r tanysgrifiad Cymraeg.

We are in the process of updating and perfecting our database of subscribers. We apologise if you have received this edition in error. Do please [let us know](#) if you would like to remove your name from the Welsh-medium subscription.

Datblygiadau Strategol

Seminar Sgiliau Rhyngwladol yn Arddangos Cymru i'r Byd

Coleg Caerdydd a'r Fro a ddewiswyd fel lleoliad seminar rhyngwladol fu'n arddangos sector sgiliau Cymru i wleidyddion a gwneuthurwyr polisi o mor bell i ffwrdd â Yemen ac Ethiopia wythnos diwethaf. Dyma'r seminar cyntaf o'i fath i'w gynnal yng Nghymru dan drefniant y Cyngor Prydeinig.

Yn ogystal â siaradwyr allweddol o fyd busnes a Llywodraeth Cymru, cyflwynwyd system addysg a hyfforddiant galwedigaethol Cymru, ein cyflawniadau a'n cysylltiadau busnes gan Brif Weithredwr Colegau Cymru, Greg Walker; Pennaeth Cynorthwyol Coleg Penybont, Rob Evans; as Is Bennaeth Coleg Caerdydd a'r Fro, Mary Caint.

[mwy>>>](#)

Llongyfarchiadau! Llwyddiannau Myfyrrwyr

Enillydd Trampolîn yn gymwys ar gyfer Pencampwriaethau Prydain

Myfyriwr Chwaraeon o Grŵp NPTC, Ria Hughes, ddaeth yn gyntaf allan o'r 26 fu'n trampolinio ym Mhencampwriaethau Ysgolion Cymru yr wythnos diwethaf. Mae hi bellach yn gymwys ar gyfer Pencampwriaethau Ysgolion Prydain.

[mwy>>>](#)

Enwi Llysgenhadon Ifanc Menter

Mae Lee Williams, myfyriwr Gradd Sylfaen Busnes yng Ngholeg Merthyr Tudful, wedi ei enwi'n un o'r wyth cyntaf o lysgenhadon ifanc ar gyfer menter yng Nghymru. Cafodd ei enwi'n 'Entrepreneur Ifanc y Flwyddyn' yng Ngwobrau Busnes Merthyr Tudful yn ddiweddar. | [mwy o'r Coleg Merthyr Tudful](#)

Yn ymuno ag ef yn Llysgennad Ifanc Syniadau Mawr Cymru mae Edward Shorney, myfyriwr peirianeg yng Ngholeg Penybont, a chyn-fyfyriwr Coleg Penybont, Andrew Cronin. Edward Shorney yw sylfaenydd Go Rookie, chwilytydd prentisiaethau, ac Andrew Cronin yw sylfaenydd AIM Art in Movement, sy'n cynnig gwasanaethau proffesiynol Parkour ar gyfer plant 7 ac hyn. | [mwy o Goleg Penybont](#)

Sgiliau ffotograffiaeth yn ennill clod

Daeth myfyriwr o Grŵp Llandrillo Menai, Samantha Johnson, yn drydydd yng nghystadleuaeth ffotograffiaeth Consortiwm Dysgu Seiliedig ar Waith ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang (ESDGC). [mwy>>>](#)

Dilyniant Myfyrwyr

Bridio entrepreneuriaid yng Ngholeg Sir Benfro

Mae busnes newydd Francesca McCaffery, sy'n tacluso a thwtio cwn, yn datblygu'n well na'r disgwyl. Gyda gradd sylfaen a diploma cenedlaethol mewn gwyddor anifeiliaid / rheolaeth o Goleg Sir Benfro yn ogystal â chwrs busnes a lleoliadau gwaith dan ei gwregys, mae hi wedi ei chymhwyso'n dda ar gyfer mentro i fusnes.

Yn dilyn yn ei hól troed mae myfyriwr entrepreneuriaid arall, Matthew Richmond. Cyflwynwyd iddo'r Wobr Aur yng Ngwobrau Cyflawnwyr Ifanc Radio Sir Benfro eisioes. Gan ddechrau drwy gynnig gwasanaeth cerdded cwn i'w ffrindiau, mae e nawr yn llawn hyd at fis Hydref 2015 a bwrieda gyflogi staff yn yr haf - ag yntau'n dal i fod yn fyfyrwr llawn amser.

[mwy>>>](#)

Llwybr prentis at waith llawn amser

Diolch i gynllun Twf Swyddi Cymru, mae Jed Donohue, a oedd yn ddi-waith flwyddyn yn ol, nawr mewn swydd llawn amser yn dilyn prentisiaeth gyda David J Jones Upholsterers tra'n dysgu gyda Grŵp Llandrillo Menai.

[mwy>>>](#)

Gwirfoddoli yn ennill rôl llawn amser gydag URC

Mae cyn-fyfyriwr chwaraeon Coleg Sir Gâr Luke Lewis wedi sicrhau cyflogaeth amser llawn fel swyddog datblygu gydag Undeb Rygbi Cymru diolch nid yn unig i'w gymwysterau ond hefyd am iddo wneud y mwyaf o lu o gyfleoedd yn y coleg, gan gynnwys gwirfoddoli. [mwy>>>](#)

Hefyd wedi dechrau mewn rôl llawn amser mae Sam Collins - sy'n gweithio fel Cydlynnydd Gweithgareddau a Chyfranogiad ym Mhrifysgol Cymru: Y Drindod Dewi Sant - tra ei fod ar yr un pryd yn cwblhau ei radd chwaraeon yng

Ngholeg Sir Gâr. Mae hefyd wedi dod o hyd i amser i wirfoddoli mewn gweryll chwaraeon haf i blant a gyda thîm 5x30 y coleg. [mwy>>>](#)

Dathliadau Colegau

Gwobrau Grŵp NPTC

Mae Grŵp NPTC wedi cynnal ei noson wobrwyo gyntaf ers uno ei dau goleg cyfansoddol ym mis Awst 2013. Croesawodd tua 300 o westeion gan gynnwys myfyrwyr o'i 11 campws, o'r Drenewydd i Abertawe.

[mwy>>>](#)

Llwyddiannau lleoliadau gwaith myfyrwyr ILS

Mae Coleg Gŵyr Abertawe wedi cynnal seremoni i gydnabod cyflawniadau yn y gweithle ei fyfyrwyr Sgiliau Byw'n Annibynnol (ILS).

[mwy>>>](#)

Tymor o wobrau i Goleg y Cymoedd

Daeth lluo o wobrau i ddysgwyr a staff Coleg y Cymoedd wrth i 2014 dynnu i'w therfyn, a hynny ar draws adrannau academaidd a galwedigaethol.

[mwy>>>](#)

Cyfleoedd Dysgu

Gwefan prosiect digartrefedd yn rhoi her i fyfyrwyr

Mae myfyrwyr TG o gampws Tycoch Coleg Gŵyr Abertawe wedi bod yn gweithio ochr yn ochr â Phrosiect Pobl Ifanc Sengl Ddigartref Abertawe (SYSHP) i'w cynorthwyo i ddatblygu gwefan benodedig.

[mwy>>>](#)

Entrepreneuriaid Ifanc Arobryn Nesaf Cymru

Bydd yr egin entrepreneuriaid Geraint Robson a Caitlyn Corless o Goleg Penybont yn cychwyn ar Bootcamp Syniadau Mawr Cymru ym Mhlas Glansefin ar ddiwedd y mis, lle byddant yn derbyn cymorth dwys er mwyn cael y dechrau gorau yn eu busnesau.

[mwy>>>](#)

Nodiadau i'r Dyddiadur

Cogydd Iau Cymru - Junior Chef of Wales

Mae un ar ddeg cystadleuydd yn cystadlu am deitl nodedig Cogydd Iau Cymru a gwobr wych mewn dau rownd rhanbarthol, gyda'r [rownd a gynhaliwyd yng Ngholeg y Cymoedd \(14 Ionawr\)](#) hefyd yn cynnwys dau o'i dysgwyr ei

hunan ymhlith y cystadleuwyr.

Bydd enillwyr y ddwy rownd a'r ddau nesaf a'r sgôrau uchaf yn gymwys i symud i'r rownd derfynol a fydd yn cymryd lle yng Ngholeg Llandrillo (rhan o Grŵp Llandrillo Menai) ar Chwefror 16 - ar noswyl Pencampwriaethau Coginio Rhyngwladol Cymru.

Mae Cystadleuaeth Cogydd Iau Cymru yn darparu'r llwyfan perffaith i gogyddion ifanc i arddangos eu sgiliau a dal llygad detholwyr y tîm cenedlaethol, gydag enillwyr blaenorol wedi mynd ymlaen i gystadlu dros Gymru ymhob cystadleuaeth coginio mawr ar draws y byd.

Diwrnod gyrfaoedd y diwydiannau creadigol ar gyfer ysgolion

Trwy Aelodaeth Gysylltiol Coleg Sir Gâr gyda Sgiliau Creadigol a Diwylliannol, caiff digwyddiad Dewisiadau Creadigol ei redeg ar gyfer pobl ifanc 13 i 16 oed yn Llanelli ar 3 Chwefror fydd yn ffocysu ar y celfyddydau perfformio.

[mwy>>>](#)

Twrnaint rygbi

Bydd tri o golegau Cymru yn cystadlu yn Nhwrnaint Rugby 7 Bob Ochr Ysgolion y DU ar 1 Mawrth - y gystadleuaeth 7 bob ochr fwyaf a hir-oes a redir gan ysgolion, gyda 32 o'r tîmoedd gorau yn cymryd rhan. Y tri choleg yw Coleg Penybont, Coleg Sir Gar a Choleg y Cymoedd.

[mwy>>>](#)

Chwilio am addurnwr y flwyddyn

Bydd rownd y gystadleuaeth Myfyrwiwr-Addurnwr 2015 a redir gan Ganolfan Addurnwr Dulux yn cymryd lle yng Ngholeg Penybont ar 30 Ebrill.

Bydd naw lleoliad arall o gwmpas y DU yn cynnal y gystadleuaeth, gyda'r rownd derfynol yn cymryd lle ar 17-18 Mehefin yng Ngholeg Caeredin.

[mwy>>>](#)